

Dadansoddi ar gyfer Polisi



Analysis for Policy



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

67/2020

DYDDIAD CYHOEDDI:

07/10/2020

# Agweddau'r Cyhoedd at Wyddoniaeth yng Nghymru

## Agweddau'r Cyhoedd at Wyddoniaeth yng Nghymru

Isabella Malet-Lambert

Lucy Campbell

Adroddiad Ymchwil Llawn: Malet-Lambert, I. and Campbell, L. (2020).  
*Agweddau'r Cyhoedd at Wyddoniaeth yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth  
Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 67/2020.>  
Ar gael yn: <https://llyw.cymru/agweddau-cyhoedd-wyddoniaeth-yng-nghymru>

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch ag:

Isabella Malet-Lambert

Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 03000 628250

E-bost: [Isabella.malet-lambert@llyw.cymru](mailto:Isabella.malet-lambert@llyw.cymru)

## **Tabl cynnwys**

Rhestr o'r ffigurau .....	2
Geirfa.....	3
1. Cyflwyniad.....	4
2. Methodoleg .....	5
3. Canfyddiadau .....	8
4. Casgliadau .....	12
5. Cyfeiriadau .....	13
Atodiad A: Cwestiynau'r Arolwg .....	14
Atodiad B: Demograffeg.....	16

## **Rhestr o'r ffigurau**

Ffigur 3.1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: (%)...9

Ffigur 3.2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: (%). 10

Ffigur 3.3: Ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn addysg,  
arloesedd ac ymchwil wyddonol? (y ganran a ddywedodd y dylai wneud hynny) ... 10

Ffigur 3.4: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod gwyddoniaeth yn bwysig er mwyn...? (%)... 11

## Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
BIS	Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau
SFI	Sefydliad Gwyddoniaeth Iwerddon
LLSOA	Ardaloedd Cynnyrch Ehangach ar Lefel Is – Gogledd Cymru, Canolbarth/Gorllewin Cymru, De-orllewin Cymru, y Cymoedd, Caerdydd a De-ddwyrain Cymru.

## **1. Cyflwyniad**

- 1.1 Mae deall canfyddiad ac agweddau'r cyhoedd o ran diben a gwerth gwyddoniaeth wedi dod yn bwnc mwy a mwy poblogaidd i ymchwilwyr, llunwyr polisïau a Llywodraethau. Mae ymgysylltu â'r cyhoedd ynghylch gwerth a pherthnasedd gwyddoniaeth yn ffordd effeithiol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, i swyddogion sy'n llunio polisïau ac i Lywodraethau gysylltu â dinasyddion, gan roi cyfle i'w lleisiau gael eu clywed wrth siapio polisïau a pharatoi cynlluniau'r Llywodraeth.
- 1.2 Nod yr ymchwil yma oedd casglu data am ganfyddiad y cyhoedd yng Nghymru o werth gwyddoniaeth. Mae hyn yn cynnwys eu dealltwriaeth o wyddoniaeth a materion gwyddonol, a'u hymgysylltiad â hynny. Dylai'r casgliadau lywio polisïau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol ynghylch addysg ac ymchwil wyddonol, yn ogystal ag ymgysylltu â gwyddoniaeth.

## 2. Methodoleg

- 2.1 Cafodd y data eu casglu gan dîm Arolwg Omnibws Beaufort. Pwrpas y sampl Omnibws yw bod yn sampl o gwota cynrychioladol sy'n cynnwys 1000 o oedolion 16 oed a hŷn sy'n preswyllo yng Nghymru. Y brif uned samplu yw'r Ardaloedd Cynnyrch Ehangach ar Lefel Is (LLSOA)<sup>1</sup>, ac mae 68 o leoliadau gwahanol ar hyd a lled Cymru yn cael eu dewis fel manau cyf-weld, ar sail y tebygolrwydd eu bod yn gymesur â'r boblogaeth o oedolion sy'n preswyllo yno, ar ôl eu trefnu yn ôl rhanbarth.
- 2.2 Ym mhob lleoliad samplu, mae rheolaethau cwota sy'n cydblethu â'i gilydd ar gyfer oedran a statws cymdeithasol o fewn statws gwaith a rhyw. Mae'r cwotâu i fod i gynrychioli proffil demograffig preswylwyr yng Nghymru, yn unol â Chyfrifiad 2011. Dim ond un person sy'n cael ei gyf-weld ym mhob aelwyd.
- 2.3 Cynhelir pob cyfweiliad wyneb yn wyneb yng nghartref yr ymatebwyr, gan ddefnyddio technoleg cyfweiliadau personol gyda chymorth cyfrifiadur ar ddyfeisiau tabled. Mae gweithwyr maes profiadol Beaufort wedi arfer ag ôl-wiriadau post a ffôn, yn unol ag ISO20252 – y safon ansawdd ryngwladol ar gyfer gwasanaethau ymchwil i'r farchnad. Ar y cam dadansoddi, mae'r data'n cael eu pwysoli yn ôl grŵp oedran o fewn rhywedd mewn grwpiau Awdurdodau Lleol, er mwyn sicrhau bod y sampl yn cynrychioli poblogaeth Cymru yn unol â chanlyniadau Cyfrifiad 2011.
- 2.4 Gwnaed y gwaith maes rhwng 24 Chwefror a 15 Mawrth 2020. Y gyfradd ymateb a oedd yn cael ei thargedu oedd 1000. Fodd bynnag, dim ond 713 o gyfweiliadau gafodd eu cynnal a'u dadansoddi, gan fod y gwaith maes wedi cael ei ohirio ym mis Mawrth 2020 oherwydd y coronafeirws a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol a gafodd eu rhoi ar waith. Cafodd yr holl waith maes wyneb yn wyneb ei ohirio yn sgil hynny. I gael manylion am sut mae hyn wedi effeithio ar ganfyddiadau'r ymchwil yma, a'r dadansoddiad o'r ymchwil, darllenwch adran 2.9.
- 2.5 Cafodd cwestiynau am ddemograffeg eu cynnwys fel mater o drefn, ac roedd yr holiadur ar gael yn Gymraeg neu'n Saesneg yn ôl dewis yr unigolyn a oedd yn

---

<sup>1</sup> Gogledd Cymru, Canolbarth/Gorllewin Cymru, De-orllewin Cymru, y Cymoedd, Caerdydd a De-ddwyrain Cymru.

cymryd rhan. Mae'r rhestr o gwestiynau a gafodd eu cynnwys i'w gweld yn Atodiad A.

## **Yr Holiadur**

- 2.6 Roedd llawer o'r cwestiynau a ofynnwyd yn efelychu'r rheini a ddefnyddiwyd mewn arolygon ynghylch agweddau'r cyhoedd at wyddoniaeth mewn gwledydd bach eraill lle mae pobl yn siarad Saesneg. Mae'r rhain yn cynnwys arolygon Sefydliad Gwyddoniaeth Iwerddon yn 2015 (SFI, 2015), Seland Newydd (Nielson, 2014), Awstralia (CPAS, 2014), a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (BIS, 2014). Gwnaed hyn gyda'r bwriad o allu cymharu'n rhyngwladol rhwng Cymru a gwledydd eraill. Fodd bynnag, rhaid bod yn ofalus wrth gymharu fel hyn, oherwydd y gwahaniaethau rhwng y dulliau casglu data, maint y samplau a'r dull o recriwtio sampl – darllenwch adran 2.12 i gael rhagor o fanylion.
- 2.7 Cafodd gweddill y cwestiynau eu llunio gan Lywodraeth Cymru, gyda mewnbwn gan dîm Omnibws Beaufort.

## **Cafeatau**

- 2.8 Pan fydd data arolwg yn cael eu profi am arwyddocâd ystadegol, rhagdybir bod y sampl yn cynrychioli hapsampl o'r boblogaeth berthnasol. Ond, gan fod Arolwg Omnibws Cymru yn defnyddio samplau cwota cyfrannol (nid hapsamplau), does dim modd profi arwyddocâd ystadegol gwirioneddol, a bod yn fanwl gywir<sup>2</sup>. Felly, dylai unrhyw ganfyddiadau yn yr arolwg yma gael eu hystyried fel arwyddion o wahaniaeth yn y boblogaeth, yn hytrach na'u bod yn bendant.
- 2.9 Fel mae adran 2.4 yn sôn, roedd nifer y cyfweiliadau a gynhaliwyd ar gyfer yr ymchwil yma'n is na'r disgwyl oherwydd COVID-19. Mae hyn yn effeithio ar ba mor ddibynadwy yw'r canfyddiadau, oherwydd ni ellir ystyried bod y data'n gynrychioladol o boblogaeth Cymru. Felly mae'n anodd cymharu rhwng isgrwpiau, fel cymharu oedran neu statws economaidd-gymdeithasol.
- 2.10 Mae Atodiad B yn cynnwys manylion am y niferoedd terfynol o ymatebwyr a gyfwelwyd a'r dadansoddiad yn ôl oedran, rhywedd, lleoliad a statws economaidd-gymdeithasol.




2.11 Fel mae adran 2.6 yn sôn, mae rhywfaint o broblemau wrth wneud cymariaethau uniongyrchol rhwng yr arolwg presennol a'r arolygon rhyngwladol oherwydd nifer o ffactorau. Yn gyntaf, mae maint y samplau'n wahanol yn yr arolygon. Gallai hyn achosi amrywiad o ran dibynadwyedd y canfyddiadau ar draws gwahanol arolygon. Yn ail, gallai gwahaniaethau dros dro fod wedi achosi amrywiadau o ran yr ymatebion. Roedd rhai o'r cwestiynau a ddefnyddiwyd i gymharu wedi cael eu defnyddio mewn arolygon a gynhaliwyd yn 2014 a 2015. Mae'n debygol bod agweddau'r cyhoedd at wyddoniaeth, a'u hymwybyddiaeth o wyddoniaeth, wedi newid dros y blynyddoedd ers hynny wrth i ni weld datblygiadau technolegol. Yn olaf, mae gwahaniaethau rhwng dulliau casglu data'n gallu arwain at is-set wahanol o ymatebwyr mewn gwahanol arolygon, sy'n golygu y dylid bod yn ofalus wrth wneud cymariaethau.

### 3. Canfyddiadau

#### Agweddau at Wyddoniaeth a Thechnoleg


- 3.1 Yn gyffredinol, roedd agweddau'r cyhoedd at wyddoniaeth a thechnoleg yn gadarnhaol iawn. Roedd o leiaf hanner yr oedolion yng Nghymru a gyfwelwyd yn cefnogi'r rhan fwyaf o'r datganiadau ynghylch agweddau at wyddoniaeth a thechnoleg. Yr unig eithriad i hyn oedd y datganiad, *"Rwy'n teimlo fy mod i'n wybodus am wyddoniaeth ac ymchwil wyddonol"*. Dim ond 43% o'r ymatebwyr oedd yn cytuno â hynny (edrychwch ar Ffigur 3.1).
- 3.2 Roedd dros 86% o'r rheini a gyfwelwyd yn cytuno bod *"diddordeb pobl ifanc mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn hollbwysig er mwyn i Gymru ffynnu yn y dyfodol"*. Mae hyn yn debyg i arolwg Sefydliad Gwyddoniaeth Iwerddon (2015), lle'r oedd 92% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r un datganiad. Gofynnwyd cwestiwn tebyg yn arolwg yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2014). Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oedden nhw'n cytuno â'r datganiad, *"Mae diddordeb pobl ifanc mewn gwyddoniaeth yn bwysig er mwyn i ni ffynnu yn y dyfodol"*. Roedd 91% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r datganiad hwn.
- 3.3 Roedd 81% o'r ymatebwyr yn cytuno bod *"gwyddoniaeth a thechnoleg yn bwysig i fynd i'r afael â heriau allweddol mewn cymdeithas"*. Roedd hyn yn debyg i nifer yr ymatebwyr a oedd wedi cytuno â'r un datganiad mewn arolwg a gynhaliwyd yn Iwerddon (83%) (SFI, 2015), Seland Newydd (82%) (Nielsen, 2014) ac Awstralia (80%) (CPAS, 2014).
- 3.4 Dyma'r datganiadau yr oedd y nifer lleiaf o ymatebwyr yn cytuno â nhw: *"Hoffwn wybod mwy am wyddoniaeth"* (53%), ac *"Rwy'n teimlo fy mod i'n wybodus am wyddoniaeth ac ymchwil wyddonol"* (43%).

**Ffigur 3.1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: (%)**



- 3.5 Roedd nifer mwy o bobl yn cytuno â'r ail set o ddatganiadau (edrychwch ar Ffigur 3.2). Roedd tua 8 o bob 10 person a gymerodd ran yn yr arolwg yn cytuno â phob datganiad. Roedd 86% yn cytuno bod *“cyflenwad cyson o raddedigion ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn bwysig ar gyfer ffyniant economaidd”*. Mae hyn yn debyg iawn i'r canlyniadau yn Iwerddon, lle'r oedd 88% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad hwn (SFI, 2015).
- 3.6 Pan ofynnwyd a oedden nhw'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad, *“Mae ymchwil wyddonol yn cyfrannu'n uniongyrchol at dwf economaidd”*, roedd 80% o'r ymatebwyr yn cytuno. Pan ofynnwyd yr un cwestiwn yn arolwg yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2014), roedd 76% yn cytuno â'r datganiad hwn.
- 3.7 Roedd 88% o'r ymatebwyr yn cytuno bod *“canfyddiadau yn y maes gwyddorau cymdeithasol yn bwysig”*.
- 3.8 Ychydig iawn oedd yn anghytuno ar y cyfan (tua 2-3%), ond roedd llawer yn anghytuno â'r datganiad, *“Mae gwyddoniaeth yn llai pwysig wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar gymdeithas”*. Roedd mwy na phedwar o bob deg oedolyn yng Nghymru (44%) yn anghytuno â'r datganiad hwn, o'i gymharu â dim ond ychydig mwy nag un o bob pedwar (26%) yn cytuno.


**Ffigur 3.2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol: (%)**



### A ddylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn gwyddoniaeth?

3.9 Roedd bron i dri chwarter yr ymatebwyr (74%) yn meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn addysg, arloesedd ac ymchwil wyddonol (edrychwch ar ffigur 3.3).


**Ffigur 3.3: Ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn addysg, arloesedd ac ymchwil wyddonol? (y ganran a ddywedodd y dylai wneud hynny)**



## Pwysigrwydd ymddangosiadol gwyddoniaeth

- 3.10 Roedd y mwyafrif helaeth o'r oedolion yng Nghymru o'r farn bod gwyddoniaeth yn bwysig ym mhob elfen yr holwyd yn ei chylch. Y datganiad yr oedd y nifer mwyaf o bobl yn cytuno ag ef oedd, "*Mae gwyddoniaeth yn bwysig er mwyn gwella iechyd pobl*" (94%). Y datganiad yr oedd y nifer lleiaf o bobl yn cytuno ag ef oedd, "*Mae gwyddoniaeth yn bwysig er mwyn creu swyddi newydd*" (82%).
- 3.11 Roedd ymatebwyr i'r arolwg yn Seland Newydd (2014), a'r arolwg yn Iwerddon (2015), hefyd o'r farn bod gwyddoniaeth yn bwysig i iechyd pobl (91% yn Seland Newydd, ac 89% yn Iwerddon). Hefyd, roedd 86% yn teimlo bod gwyddoniaeth yn bwysig i ddiogelu'r amgylchedd yn Seland Newydd, ond dim ond 69% oedd yn teimlo y byddai gwyddoniaeth yn cael effaith gadarnhaol ar ddiogelu'r amgylchedd dros y 15 mlynedd nesaf yn Iwerddon (Nielsen, 2014; SFI, 2015).

**Ffigur 3.4: I ba raddau ydych chi'n cytuno bod gwyddoniaeth yn bwysig er mwyn...? (%)**



## 4. Casgliadau

- 4.1 I grynhoi, mae'r arolwg yma'n dangos bod agweddau'r cyhoedd yng Nghymru at wyddoniaeth yn gadarnhaol ar y cyfan. Roedd llawer iawn o bobl yn tueddu i gytuno â datganiadau a oedd yn creu cysylltiad cadarnhaol rhwng gwyddoniaeth a chyflogaeth a'r economi yn y dyfodol. Roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n enwedig bod diddordeb pobl ifanc mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn hollbwysig er mwyn i Gymru ffynnu yn y dyfodol, ac y gellid mynd i'r afael â heriau allweddol mewn cymdeithas drwy wyddoniaeth a thechnoleg.
- 4.2 Er bod llawer o'r ymatebwyr yn teimlo eu bod yn wybodus am wyddoniaeth (43%), doedd bron i un o bob tri (31%) o'r rheini a gyfwelwyd ddim yn teimlo'n wybodus am wyddoniaeth. Dylid ystyried hynny wrth i Lywodraeth Cymru gyfleu canfyddiadau gwyddonol a datblygiadau gwyddonol yn y dyfodol.
- 4.3 Hefyd, teimlai dros hanner yr ymatebwyr (53%) y byddent yn hoffi gwybod mwy am wyddoniaeth. Dylid ystyried yr awydd yma i ddysgu am wyddoniaeth wrth ddarparu adnoddau ac addysg wyddonol.
- 4.4 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (74%) yn teimlo y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn addysg, arloesedd ac ymchwil wyddonol. Mae hyn yn awgrymu bod y cyhoedd o blaid rhagor o fuddsoddiadau gwyddoniaeth gan Lywodraeth Cymru.
- 4.5 Mae'r ffaith bod llawer iawn yn cytuno (79%) â'r datganiad, "*Dylid defnyddio cyngor gwyddonol i lywio polisiau a phenderfyniadau'r llywodraeth*", yn awgrymu ei bod yn bwysig i'r rhan fwyaf o'r cyhoedd bod penderfyniadau'r llywodraeth yn seiliedig ar gyngor a thystiolaeth wyddonol.
- 4.6 Yn gyffredinol, roedd y lefelau cytuno ac anghytuno â chwestiynau'r ymchwil yma – a oedd yr un fath â'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr arolygon mewn gwledydd eraill – yn debyg iawn.

## 5. Cyfeiriadau

Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau (2014). [Public Attitudes to Science](#). (Cyrchwyd ar 28/08/2020)

Sefydliad Gwyddoniaeth Iwerddon (2015). [Science in Ireland Barometer](#).(Cyrchwyd ar 29/08/2020)

Y Ganolfan Genedlaethol ynghylch Ymwybyddiaeth y Cyhoedd o Wyddoniaeth (CPAS) (2014). [How do Australians engage with science?](#) (Cyrchwyd ar 01/09/2020)

Nielson (2014). [Report on Public Attitudes Towards Science and Technology](#). (Cyrchwyd ar 27/08/2020)

## Atodiad A: Cwestiynau'r Arolwg

1) Dyma rywfaint o ddatganiadau am wyddoniaeth a thechnoleg. Dywedwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â nhw. Does dim ateb cywir nac anghywir i'r datganiadau hyn, eich barn sydd o ddiddordeb i ni. (Ar hap)

Mae gwyddoniaeth a thechnoleg yn bwysig i fynd i'r afael â heriau allweddol mewn cymdeithas	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Dylai fod gan bob dinesydd ddealltwriaeth dda o wyddoniaeth	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Hoffwn wybod mwy am wyddoniaeth	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Rwy'n teimlo fy mod i'n wybodus am wyddoniaeth ac ymchwil wyddonol	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae diddordeb pobl ifanc mewn gwyddoniaeth a thechnoleg yn hollbwysig er mwyn i Gymru ffynnu yn y dyfodol	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae mynd ati'n effeithiol i gyfleu gwybodaeth am wyddoniaeth yn bwysig er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hygredd	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

2) Dyma rywfaint o ddatganiadau am wyddoniaeth a thechnoleg. Dywedwch i ba raddau rydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â nhw. Does dim ateb cywir nac anghywir i'r datganiadau hyn, eich barn sydd o ddiddordeb i ni. (Ar hap)

Mae cyflenwad cyson o raddedigion ym meysydd gwyddoniaeth a thechnoleg yn bwysig ar gyfer ffyniant economaidd	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
Mae ymchwil wyddonol yn cyfrannu'n uniongyrchol at dwf economaidd	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf



<b>Mae canfyddiadau yn y maes gwyddorau cymdeithasol yn bwysig</b>	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
<b>Mae gwyddoniaeth yn allweddol er mwyn i Gymru ffynnu yn y dyfodol</b>	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
<b>Mae gwyddoniaeth yn llai pwysig wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n effeithio ar gymdeithas</b>	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
<b>Dylid defnyddio cyngor gwyddonol i lywio polisiau a phenderfyniadau'r llywodraeth</b>	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

**3) Ydych chi'n meddwl y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mwy mewn addysg, arloesedd ac ymchwil wyddonol?**

- i) Ydw
- ii) Ddim yn gwybod/Niwtral
- iii) Nac ydw

**4) Yn eich barn chi, ydy darparu addysg wyddonol dda i genedlaethau'r dyfodol:**  
(rhowch mewn trefn)

- i) Yn bwysig iawn
- ii) Yn eithaf pwysig
- iii) Y naill na'r llall
- iv) Ddim yn bwysig iawn
- v) Ddim yn bwysig o gwbl

**5) I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol:**

Mae gwyddoniaeth yn bwysig er mwyn... (Ar hap)

<b>Gwella iechyd pobl</b>	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
<b>Gwella'r amgylchedd</b>	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
<b>Creu swyddi newydd</b>	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf
<b>Cynhyrchu technolegau newydd arloesol</b>	Cytuno'n gryf	Cytuno	Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno	Anghytuno	Anghytuno'n gryf

## Atodiad B: Demograffeg

	Y sampl targed	Y sampl a gafwyd
Nifer y cyfranogwyr	1000	713

### Rhanbarthau

	Nifer (wedi'i bwysoli)	Nifer (heb ei bwysoli)	Canran (wedi'i phwysoli)	Canran (heb ei phwysoli)
Gogledd Cymru	161	125	22.5%	18%
Canolbarth a De-orllewin Cymru	242	298	34%	42%
Y Cymoedd a De-ddwyrain Cymru	310	290	43.5%	41%

### Rhywedd

	Nifer (wedi'i bwysoli)	Nifer (heb ei bwysoli)	Canran (wedi'i phwysoli)	Canran (heb ei phwysoli)
Dynion	347	327	48.6%	46%
Menywod	366	366	51.4%	54%

### Oedran:

	Nifer (wedi'i bwysoli)	Nifer (heb ei bwysoli)	Canran (wedi'i phwysoli)	Canran (heb ei phwysoli)
16-34	209	200	29.3%	28%
35-54	233	191	32.6%	27%
55+	271	322	38.1%	45%

### Gradd Gymdeithasol:

	Nifer (wedi'i bwysoli)	Canran (wedi'i phwysoli)	Nifer (heb ei bwysoli)	Canran (heb ei phwysoli)
AB	145	20.3%	Amh.	Amh.
C1	222	31.1%	Amh.	Amh.
C2	710	22.8%	Amh.	Amh.
DE	180	25.3%	Amh.	Amh.
ABC1	367	51.5%	374	52%
C2DE	343	48.1%	366	47%